

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 25 Chwefror 2021 am 10.30 am

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon Y Cynghorydd G Hopkins

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd L Walker

58 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud:-

- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins, y buddiant canlynol yn Eitem 4 ar yr Agenda - Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL): 'Rydw i'n Aelod o Gyngor Cymuned Llanharan';
- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis y buddiant canlynol yn Eitem 8 yr Agenda - Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Diweddariad ar y Cynigion i wella Darpariaeth Addysg yng Nghwm Cynon: 'Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn YGG Abercynon, y

- cyfeirir ato yn yr adroddiad',
- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis y buddiant canlynol yn Eitem 14 ar yr Agenda - Cynllun Rheoli Aседau Corfforaethol 2018/23: Gwybodaeth interim: 'Cyfeirir at Neuadd Gymdeithasol Abercynon yn yr adroddiad ac rydw i'n aelod o'r Pwyllgor'; a
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker y buddiant canlynol yn Eitem 8 ar yr Agenda - Adolygiad o Ddarpariaeth Ysgolion Arbennig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: 'Rydw i ar y Corff Llywodraethu Ysgol Tŷ Coch'.

-

59 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2021 a 28 Ionawr 2021 yn rhai cywir.

60 Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Pum Mlynedd yn Ddiweddarach

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am gynnydd Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ('CCR') (y 'Cabinet Rhanbarthol' - cyd-bwyllgor), gan drafod goruchwyllo twf economaidd y Rhanbarth a chyflawni'r ymrwymïadau a nodir ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cabinet, o dan delerau ac amodau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, fod y rhaglen ariannu yn destun Adolygiad Porth bob pum mlynedd. Esboniwyd bod yr Adolygiad Porth yn asesiad dan arweiniad Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth Panel Gwerthuso Cenedlaethol annibynnol, a gomisiynodd SQW i gynnal gwerthusiad o effeithiau'r buddsoddiadau a wnaed hyd yma gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Tynnwyd sylw'r Aelodau at yr atodiadau i'r adroddiad, lle manylwyd ar ddogfennau'r Adolygiad Annibynnol a'r Hunanwerthusiad.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod y buddsoddiad CCR gwerth £1.2 biliwn yn cynnwys dwy elfen wahanol:

- £734 miliwn – cynllun METRO;
- £495 miliwn - Cronfa Fuddsoddi Ehangach y Cabinet Rhanbarthol.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cabinet fod llawer o waith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y tu allan i gwmpas yr Awdurdod Lleol, a olygai y gallai ychwanegu gwerth. Hysbyswyd yr aelodau o'r buddsoddiadau canlynol yn sgil Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd o fudd i RCT:

- Buddsoddiad 'Zipworld', gwerth £4 miliwn;
- Cyfnewidfa'r Porth;
- Adleoliad Trafnidiaeth Cymru i Bontypridd; a
- Gwelliannau i linellau'r Cwm.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am y diweddariad ac roedd yn falch o nodi lefel y buddsoddiad o safbwynt RhCT a'r Cymoedd. Soniodd yr Arweinydd am y buddsoddiad o £2.5 miliwn yng Nghyfnwidfa'r Porth, y rhaglen i raddedigion, 'Zipworld' - y mae disgwyl iddo gael ei ehangu, a thrafodaethau

mewn perthynas â gosod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y 10 Awdurdod Lleol, trwy'r Fargen Ddinesig, wedi dod ynghyd i roi llais cryfach i Dde Ddwyrain Cymru, a oedd wedi caniatáu iddyn nhw lobio Llywodraeth y DU a Chymru ar gyfleoedd cyllido amrywiol.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Arweinydd am y buddsoddiad cadarnhaol yn RhCT a'r Cymoedd, trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a nododd fod y rhyng-gysylltedd yn y Rhanbarth wedi creu rhagor o gyfleoedd a dewis. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2021 a lleisiodd ei chefnogaeth i'r adroddiad.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, a'r cynnydd a wnaed gan Gyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn perthynas â'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt a nodir ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
2. Adolygu a thrafod yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ar hynt Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i lywio'r Adolygiad Porth sydd ar ddod o Gronfa Buddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y pum mlynedd diwethaf, fel y nodir yn Atodiad A; a
3. Gofyn i ganlyniadau, casgliad ac argymhellion yr Adolygiad Porth sydd i ddod, sydd i'w cwblhau cyn 31 Mawrth 2021, gael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol, cyn gynted ag y daw'n ddogfen gyhoeddus.

61 Ymatebion i Ymgynghoriad yr Ardoll Seilwaith Cymunedol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr, Materion Ffyniant a Datblygu, ddiweddariad i'r Cabinet am yr ymatebion sy'n deillio o ymgynghoriad yr Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn perthynas â Rhestr Rheoliad 123 y Cyngor.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y Cabinet, ar 17 Tachwedd 2020, wedi cymeradwyo'r Rhestr Rheoliad 123 wedi'i diweddarau, i'w chyhoeddi ar wefan y Cyngor am gyfnod o 28 diwrnod. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Mawrth 24 Tachwedd 2020 a daeth i ben ddydd Llun 21 Rhagfyr 2020.

Cafodd yr Aelodau wybod am yr ymatebion canlynol o ganlyniad i'r ymgynghoriad:

- Argymhellodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mark Adams y dylid ychwanegu estyniad Ffordd Liniaru Rhondda Fach i Maerdy at Restr Rheoliad 123; a
- Argymhellodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Joel James ac Aelodau Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref fod gofyniad i wella/cynyddu gallu addysgol yn Ysgol Gynradd Maesybryn, Llanilltud Faerdref.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod swyddogion wedi ystyried yr argymhellion uchod mewn ymgynghoriad ag Addysg a Phriffyrdd ac wedi cyflwyno'r materion i'r Cabinet i'w trafod.

O ran yr argymhelliad am Estyniad Ffordd Liniaru Rhondda Fach, atgoffodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau mai prwpas Rhestr CIL 123 oedd lliniaru effaith twf a datblygiad sylweddol, yn enwedig yr hyn sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol. O ran Ffordd Liniaru Rhondda Fach, dywedodd y Cyfarwyddwr fod nifer o

gynlluniau trafndiaeth eisoes wedi'u cynnwys yn Rhestr 123, gyda'r nod penodol o liniaru effaith datblygiadau. Eglurodd y Cyfarwyddwr nad oedd y cynllun yn cyd-fynd ag egwyddorion Rhestr Rheoliad 123 ac felly, cynigiodd beidio ag ychwanegu'r cynllun at Restr Rheoliad 123, ond yn hytrach, ystyried llwybrau cyllido eraill.

O ran argymhelliad Ysgol Gynradd Maesybryn, dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd unrhyw bwysau brys ar yr ysgol, a fyddai'n gwarantu ei chynnwys yn Rhestr Rheoliad 123 ar hyn o bryd, ond awgrymodd fod darpariaeth addysg, sy'n cyd-fynd â thwf, yn cael ei hystyried yn rhan adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am y diweddariad a nododd, o ran argymhelliad Ysgol Gynradd Maesybryn, y gellid edrych ar hyn yn ddiweddarach pe bai'r sefyllfa'n newid. Gan gyfeirio at argymhelliad Estyniad Ffordd Liniaru Rhondda Fach, cydnabu'r Arweinydd nad oedd hyn briodol ar gyfer y rhestr ar hyn o bryd ond pwysleisiodd ei fod yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Cyngor. Esboniodd yr Arweinydd fod maint y buddsoddiad yr oedd ei angen ar gyfer hyd llawn y ffordd yn fwy na £150 miliwn, ac o'r herwydd, byddai angen ystyried llwybrau cyllido eraill.

Cymeradwyodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai y sylwadau a wnaed gan yr Arweinydd a dywedodd fod ymestyn Ffordd Liniaru Rhondda Fach yn bwnc trafod gyda thrigolion yr ardal, gan y byddai mynediad at drafndiaeth gyhoeddus yn cael ei wella'n fawr. Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet na fyddai'r estyniad yn briodol ar gyfer y rhestr gyfredol ac y byddai'r gwaith yn cael ei lywio'n well trwy'r Cynllun Datblygu Lleol.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd y sylwadau blaenorol ac ychwanegodd fod y Cyfarwyddwr wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned yn aml i atgoffa'r Cynghorau Cymuned o'r rhwymedigaethau i gyflwyno Rhestr 123.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r ymatebion ymgynghori a gafwyd gan Aelodau Etholedig a'r Cyngor Cymuned ym mharagraffau 5.2, 5.3 a 5.4 o'r adroddiad;
2. Nodi'r argymhellion mewn perthynas ag ymatebion yr ymgynghoriad a'r cynlluniau arfaethedig yn Adran 6; a
3. Mabwysiadu'r Rhestr Rheoleiddio 123.

62 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – Defnydd o'r Ddeddf yn 2019-20 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Pholisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yr wybodaeth flynyddol ddiweddaraf i'r Aelodau am ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 tan 31 Rhagfyr 2020. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Archwilio (IPCO) wedi newid ei gyfnod dychwelyd blynyddol i gyd-fynd â'r flwyddyn galendr; ac awgrymodd fod yr adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o RIPA yn cael ei ddiwygio yn yr un modd i gyd-fynd â'r flwyddyn galendr.

Atgoffwyd yr Aelodau y gellir cyhoeddi awdurdodiadau gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn atal neu ganfod trosedd, neu atal anhrefn, lle gellir cosbi o leiaf un o'r troseddau trwy uchafswm cyfnod o garchar o leiaf chwe mis neu ragor, neu os yw'n ymwneud â

gwerthu alcohol neu dybaco/nicotin dan oed. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Rhagfyr 2020, dywedodd y Cyfarwyddwr y cyhoeddwyd pedwar awdurdodiad mewn perthynas â gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd; roedd pob un ohonynt mewn perthynas â Thipio Sbwriel. Yn ystod yr un cyfnod, ni chafwyd unrhyw awdurdodiadau ar gyfer defnyddio ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol.

Parhaodd y Cyfarwyddwr i siarad am y gwaith cudd, nad yw'n dod o fewn y gofynion statudol ar gyfer RIPA. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y defnydd o dechnegau gorfodi cudd yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn unol â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cabinet y bu cynnydd yn y broses fonitro safleoedd rhynggrwyd, yn enwedig o ganlyniad i bandemig Covid-19. Dysgodd yr Aelodau fod adolygiad o'r gweithrediadau a'r ymchwiliadau hyn yn dangos nad oedden nhw wedi arwain at effaith amhriodol ar hawliau dynol unigolyn ar unrhyw adeg.

Yna siaradodd y Cyfarwyddwr am archwiliad tair blynedd yr IPCO ar y defnydd priodol o RIPA yn Rhondda Cynon Taf, a gynhaliwyd o bell ar 7 Medi 2020. Roedd yn braf nodi bod yr adroddiad archwilio yn ategu'r defnydd a'r gweithdrefnau RIPA sydd ar waith yn yr Awdurdod Lleol.

Cyn gorffen, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Atodiad B yr adroddiad, a oedd yn manylu ar Bolisi Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer Caffael Data Cyfathrebu, a gafodd ei ddrafftio o ganlyniad i ddyfodiad y Ddeddf Pwerau Ymchwilio.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am y diweddariad a rhoi sicrwydd i'r Aelodau bod y RIPA yn parhau i gael ei defnyddio mewn modd cyson a phriodol. Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am y cyfeiriad at hyfforddiant yn y llythyr at y Prif Weithredwr a theimlai y byddai hyfforddiant yn fuddiol i'r holl Aelodau Etholedig yn y dyfodol agos.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Cydnabod bod RIPA wedi ei defnyddio mewn modd priodol sy'n gyson â pholisïau'r Cyngor, yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 tan 31 Rhagfyr 2020;
3. Cymeradwyo'r Ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Corfforaethol wedi'i diweddaru ar Gaffael Data Cyfathrebu o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA) sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad; a
4. Cymeradwyo newid yn y cyfnod adrodd i flwyddyn galendr, i gyd-fynd â'r cyfnod dychwelyd ffurflenni IPCO.

63 Adroddiad Blynyddol y Cydwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol 2019-2020

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol y Cydwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol 2019-2020 i'r Cabinet.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod RhCT yn rhan o Gydwasanaeth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC), y mwyaf o blith y pum cydweithrediad rhanbarthol, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru (NAS).

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wrth y Cabinet fod yr adroddiad wedi bod yn destun craffu gan Fwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu -

Plant a Phobl Ifainc.

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019-20, dysgodd yr Aelodau fod y galw am fabwysiadwyr wedi lleihau rhywfaint yn RhCT, ond roedd hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r gwaith â ffocws a wnaed i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy cyffredinol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran mai blaenoriaeth allweddol y cydweithrediad oedd cynyddu'r cyflenwad o fabwysiadwyr a phwysleisiodd bwysigrwydd gwaith recriwtio. Yn ystod y cyfnod, bu cynnydd o 35% yn nifer y mabwysiadwyr, sy'n galonogol, ond dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod angen gwaith pellach i gynyddu'r niferoedd. At ei gilydd, roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran o'r farn bod yr adroddiad yn tynnu sylw at ddarlun cadarnhaol a buddion y dull cydweithredol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant i'r Cyfarwyddwr Cyfadran am yr adroddiad calonogol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y gwelliant a wnaed i'r gwaith 'Taith Bywyd', a oedd wedi cynyddu o 44% i 60%, ond nododd fod cryn dipyn i'w wneud eto i gyrraedd y targed o 84%.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am y gwaith sylweddol a wnaed i gynyddu nifer y mabwysiadwyr yn y Rhanbarth, a oedd wedi arwain at gynydd o 35%. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi'r cynnydd, ond nododd fod angen gwneud gwaith pellach i gynyddu'r niferoedd, yn enwedig yn dilyn pwysau'r pandemig Covid-19.

Adleisiodd yr Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i staff am ddal ati i recriwtio rhagor o fabwysiadwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn. Siaradodd yr Arweinydd am y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y pandemig a chydabu, wrth i'r plant ddechrau dychwelyd i'r ysgol, y gallai'r atgyfeiriadau gynyddu eto. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi cefnogaeth ychwanegol i Awdurdodau Lleol i ddarparu ar gyfer unrhyw bwysau ychwanegol wrth ddychwelyd i'r drefn arferol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

64 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Diweddaraaf am Gynigion i wella darpariaeth Addysg yng Nghwm Cynon

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, adroddiad sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet am y prosiectau i wella addysg yng Nghwm Cynon, yn dilyn yr adroddiad a ddaeth gerbron y Cabinet ym mis Medi 2018. Dyma'r prosiectau dan sylw:

- Y buddsoddiad mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun; a
- Gwellu darpariaeth addysg Gymraeg yng Nghwm Cynon.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn dilyn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 2018, y gwnaed buddsoddiad sylweddol yn natblygiad Ysgol Gynradd Hirwaun, gwerth cyfanswm o £10.2 miliwn, ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cyllid. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod adeilad yr ysgol bellach wedi'i gwblhau a bod staff a disgyblion wedi symud i mewn ar ôl hanner tymor ym mis Tachwedd 2020. Esboniwyd bod Cam 2 ar y gweill gyda dymchwel y bloc iau a bod y ddarpariaeth Dechrau'n Deg newydd ar y safle hefyd wedi'i chwblhau a'i hagar

ym mis Ionawr 2021.

O ran y buddsoddiad yn YGG Aberdâr, dywedodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid gwerth cyfanswm o £4.5 miliwn ers hynny, gan gynnwys y cyllid i greu Meithrinfa newydd. Hysbyswyd yr Aelodau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd cyn cyflwyno cais cynllunio.

Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i siarad am y buddsoddiad yn Ysgol Gyfun Rhydywaun a'r cynlluniau i gynyddu'r capasiti. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynlluniau wedi datblygu'n sylweddol a bod y cais cynllunio ar gyfer y prosiect wedi'i gyflwyno, a'r bwriad yw dechrau'r gwaith ar y safle ym mis Ebrill 2021. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai cyfanswm y gost amcangyfrifedig a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Medi 2018 oedd £ 10.2 miliwn ond yn dilyn datblygiad pellach, roedd cyfanswm costau'r prosiect ar gyfer y cynigion bellach yn £ 12.1 miliwn. Serch hynny, ychwanegodd y Cyfarwyddwr, yn dilyn newidiadau i'r pecyn cyllido, a olygai fod cyfradd ymyrraeth grant Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cynyddu o 50% i 65%, mewn gwirionedd roedd cyfraniad y Cyngor i'r buddsoddiad cyffredinol wedi gostwng o tua £5.1 miliwn i £4.2 miliwn.

Ymhellach, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y buddsoddiad ychwanegol canlynol a wnaed trwy'r portffolio Addysg:

- Buddsoddiad o fwy na £2 miliwn trwy Raglenni Cyfalaf a Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sydd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus; a
- Sicrhawyd £250k o Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru i ailagor Meithrinfa ar safle Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon.

Ar ôl gorffen cyflwyniad y Cyfarwyddwr, cynigiodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y diwygiad canlynol i argymhelliad 2.2 yr adroddiad, i'w drafod gan y Cabinet:

- Nodi a chymeradwyo'r amrywiadau i gynigion Ysgol Gyfun Rhydywaun ers yr adroddiad diwethaf *a chytuno i gynnig y dylid cyflwyno cyfraniad gofynnol y Cyngor trwy fenthycia darbodus i'r Cyngor (yn amodol ar gymeradwyaeth yr Achos Busnes Terfynol).*

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad cadarnhaol ac roedd yn falch o gefnogi'r argymhellion gyda'r diwygiad. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yr adroddiad yn dangos ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi yn y portffolio Addysg a chynyddu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref yn sylweddol ac roedd yn falch o nodi, er bod cwmpas a chost datblygiad Ysgol Gyfun Rhydywaun wedi cynyddu, roedd cyfraniad y Cyngor wedi gostwng o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i Gyfradd Ymyrraeth Llywodraeth Cymru. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn edrych ymlaen at weld y gwaith yn cychwyn, ar ôl cwblhau Ysgol Gynradd Hirwaun yn llwyddiannus.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg yr adroddiad ac roedd yn falch o nodi'r buddsoddiad pellach mewn cyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol sylwadau cynharach mewn perthynas â'r buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth Addysg. Siaradodd yr Aelod Cabinet am bwysigrwydd buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn gwneud yr ysgolion yn hygyrch trwy addysg y blynyddoedd cynnar, ac roedd yn falch o nodi

bod RhCT wedi parhau i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y prosiectau; a
2. Nodi a chymeradwyo'r amrywiadau i gynigion Ysgol Gyfun Rhydywaun ers yr adroddiad diwethaf a chytuno i gynnig y dylid cyflwyno cyfraniad gofynnol y Cyngor trwy fenthycu darbodus i'r Cyngor (yn amodol ar gymeradwyaeth yr Achos Busnes Terfynol).

65 Adolygiad o Ddarpariaeth Ysgolion Arbennig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am ymarfer casglu data a gynhaliwyd er mwyn hwyluso adolygiad manwl o ddarpariaeth ysgolion arbennig ledled y Fwrdeistref Sirol. Ystyriodd yr adolygiad hefyd effaith Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (2018) o safbwynt cenedlaethol a lleol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr mai pwrpas yr adroddiad oedd mynd i'r afael â'r galw am gapasiti ychwanegol mewn ysgolion arbennig yn Rhondda Cynon Taf i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a chydabod bod y dyletswyddau statudol a osodir ar y Cyngor i gyflawni rhwymedigaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET), a fydd yn cynyddu'r pwysau o ran capasiti yn y sector ysgolion arbennig.

Tynnwyd sylw aelodau at Adran 4 yr adroddiad, sef dadansoddiad manwl o'r galw cynyddol am lefydd ym mhob ysgol arbennig. Dangosodd y gymhariaeth ddata y bu cynnydd cyson yn nifer y dysgwyr, flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2016, yn Ysgol Hen Felin ac Ysgol Tŷ Coch.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei bod yn anodd rhagamcanu galw wrth edrych i'r dyfodol, ond derbyniodd fod y data yn dangos cynnydd cyson. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod cyfyngiadau ar rai safleoedd ysgolion ac, o ystyried y gwaith o weithredu deddfwriaeth newydd, Deddf ALNET (2018), ym mis Medi 2021, roedd yn bwysig cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Webster am yr eitem yma.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngorydd Walker am ei sylwadau a
PHENDERFYNODD Y CABINET:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Cydnabod y pwysau ar ein hysgolion arbennig a'r angen am adolygiad manwl o ddarpariaeth ysgolion arbennig ledled y Fwrdeistref Sirol;
3. Cyflawni gwaith cwmpasu ychwanegol gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb lle bo hynny'n briodol, i lywio cynigion posibl ar gyfer newid;
a
4. Derbyn adroddiad pellach yn cyflwyno canlyniad yr adolygiad, gan gynnwys argymhellion ar gyfer buddsoddiadau posibl yn y dyfodol.

66 Diweddariad ar Weithredu Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol

ac Addysg (2018) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhoddodd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, adroddiad sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet am weithrediad Deddf ALNET (Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (2018)) a darparu gwybodaeth i'r Cabinet am oblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd i'r Cyngor o safbwynt lleol.

Hysbyswyd y Cabinet am y newidiadau a gynlluniwyd yng Nghymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) wrth weithredu deddfwriaeth newydd, Deddf ALNET (2018), ym mis Medi 2021. Derbyniodd Deddf ALNET (Cymru) 2018 (Deddf 2018) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018.

Rhoddodd y swyddog fanylion i'r Cabinet mewn perthynas â'r fframwaith statudol newydd, a'r un ar ddeg nod craidd yn y Ddeddf, a amlinellwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

Esboniodd y swyddog fod yn rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol RCT fod yn barod i weithredu'r system ADY newydd yn unol â'r amserlenni rhagnodedig o fis Medi 2021 ac argymhellodd y dylid gwneud gwaith ychwanegol i hwyluso adolygiad manwl o'r adnoddau ychwanegol y mae Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Sir, sicrhau bod RhCT yn gallu gweithredu gofynion statudol newydd Deddf ALNET yn llawn, a galluogi pob dysgwr ag ADY i gyflawni ei botensial trwy weithredu diwygio trawsnewidiol yn effeithiol.

Diolchodd Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r swyddog am y diweddariad a dywedodd fod angen yr adolygiad i fynd i'r afael â'r galw am gapasiti ychwanegol i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau statudol ehangach o dan y Ddeddf ALNET newydd, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn Rhondda Cynon Taf yn derbyn darpariaeth ADY o ansawdd uchel. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n edrych ymlaen at dderbyn canlyniad yr adolygiad ac ystyried y buddsoddiad posibl y gallai fod ei angen.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Cynnal adolygiad i gwmpasu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth ADY newydd; a
3. Derbyn adroddiad pellach yn cyflwyno canlyniad yr adolygiad, gan gynnwys argymhellion ar gyfer buddsoddiadau posibl yn y dyfodol.

67 Polisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor 2021/22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Cyflawni a Gwella, adroddiad i'r Aelodau sy'n amlinellu'r diwygiadau arfaethedig i lefelau ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer 2021/21 (ar waith o Ebrill 2021 neu cyn gynted â phosibl wedyn), yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y ffioedd a'r taliadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo y mae modd eu cynnwys yn y Strategaeth Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod adolygiad y Cabinet o'r ffioedd a'r taliadau yn rhan o drefniadau cynllunio ariannol Tymor Canolig y Cyngor, a bod cynnig i roi cynnydd safonol o 1.7% ar waith o 1 Ebrill 2021, ac eithrio yn y

meysydd gwahanol:

- Hamdden am Oes - Dim cynnydd
- Taliadau Meysydd Parcio - Dim cynnydd;
- Ffioedd chwarae yr haf a'r gaeaf (Clybiau Chwaraeon) - Dim cynnydd;
- Pryd-ar-glud/Prydau Canolfannau Oriau Ddydd - 10c y pryd ac yna rhewi'r pris tan 2023
- Prydau Ysgol - Dim Cynnydd (a'r pris wedi'i rewi tan Ebrill 2023)
- Ffioedd Profedigaeth - Dim Cynnydd
- Y Lido/Parc Treftadaeth Cwm Rhondda - Dim cynnydd

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y lefelau cyllid a dderbyniwyd trwy'r Setliad Llywodraeth Leol wedi cael eu trafod; goblygiadau penderfyniadau a gymeradwywyd eisoes; Meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol; adborth a dderbyniwyd yn rhan o'r broses ymgynghori; a rhagamcanu lefel chwyddiant ar gyfer y dyfodol. Esboniwyd y byddai effaith y cynigion uchod yn lleihau'r incwm o £185k mewn blwyddyn lawn.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y diweddariad. Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa wrth edrych i'r dyfodol, o ran ffioedd a thaliadau, yn gadarnhaol ac yn falch o nodi bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd wedi dangos cefnogaeth eang i'r cynigion.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i siarad am y peilot, a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2019, i gymhwyso ffi amlosgi is ar gyfer trefnwyr angladdau sy'n cynnig amlosgiad uniongyrchol yn Rhondda Cynon Taf. Esboniwyd bod y Cyngor wedi edrych yn sympathetig ar feysydd fel hyn, a oedd, yn anffodus, wedi codi o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o nodi'r gostyngiad parhaus arfaethedig o 25% i holl ffioedd profedigaeth y Cyngor a dynnir gan deuluoedd cyn-filwyr rhyfel ymadawedig a swyddogion y lluoedd arfog sy'n preswyllo yn Rhondda Cynon Taf.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth am bwysigrwydd plant yn cyrchu'r cyfleusterau hamdden ar adeg pan mae'n ddiogel gwneud hynny a chwestiynodd effaith ariannol rhewi taliadau caeau 3G, yn unol â thaliadau caeau chwarae. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth pe bai'r Cabinet yn bwriadu rhewi taliadau caeau 3G, byddai'r gost flynyddol yn cyfateb i £2000.

Roedd Aelodau'r Cabinet yn gefnogol i'r gwelliant ac yn cydnabod bod y gost yn fach iawn o'i chymharu â phwysigrwydd i blant gael mynediad at gyfleusterau hamdden. Felly, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r lefelau diwygiedig arfaethedig ar gyfer holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor fel sydd wedi'u hamlinellu yn adran 5 o'r adroddiad ac sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1, yn amodol ar y diwygiad yma;
 - Rhewi'r taliadau caeau 3G ar gyfer 2021/2022 (ar gost o £2k);
2. Yn amodol ar gytuno ar gynigion ffioedd a thaliadau, cynnwys yr effaith gyllidebol net £ 187k (wedi'i diweddarau) ar gyfer 2021/22) yn y cynigion strategaeth gyllidebol i'w hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol (paragraff 5.4); a
3. Nodi'r penderfyniadau ffioedd a thaliadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo a'u cynnwys yn Strategaeth Gyllideb arfaethedig 2021/22 (paragraff 5.5 / Tabl 2).

68 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2021/22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ganlyniadau ail gam yr ymgynghoriad ar y Gyllideb i'r Cabinet er mwyn i'r Aelodau ystyried a diwygio'r strategaeth gyllideb ddrafft yr hoffent ei hargymell i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 10 Mawrth 2021.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adborth wedi'i atodi i'r adroddiad a'i fod yn cynnwys adborth Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad y Cyngor a Fforwm Cyllideb yr Ysgol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cabinet fod yr adroddiad yn cynnwys:

- Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 2.65%, a fyddai'n cynyddu'r bwlch cyllideb sy'n weddill o £182,000;
- Cyllideb Ysgolion sydd â chynnydd o £2.2 miliwn o £161.6 miliwn i £163.8 miliwn er mwyn cwmpasu yr holl bwysau chwyddiant a nifer y disgyblion yn llawn, gan gynnwys costau uwch Ardrethi Annomestig.
- Cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £4.6 miliwn;
- Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer adnoddau a buddsoddiad ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:
 - Cynllun rhyddhad lleol - Ardrethi Annomestig
 - Costau parcio
 - Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon
 - Graddedigion
 - Cefnogi Lles
 - Ffioedd a chostau
 - Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd - Adnoddau Ychwanegol
 - Cymorth Atal Llifogydd
 - Carfan Torri Gordyfiant

Dywedodd y Cyfarwyddwr, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyllidebol sy'n weddill, y cynigiwyd y dylid dyrannu £ 0.711 miliwn o'r gronfa Ariannu Drosiannol ar gyfer 2021/22, a oedd yn cynnwys penderfyniad y Cabinet i rewi taliadau caeau 3G ar gyfer 2021/22.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr a'r tîm ariannol am yr adroddiad cadarn gerbron y Cabinet.

Eglurodd yr Arweinydd fod y gefnogaeth arfaethedig o £50,000 i fusnesau yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Cyngor yn y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, dywedodd yr Arweinydd fod y Cymorth Atal Llifogydd arfaethedig gwerth £50,000 yn ychwanegol at y refeniw ychwanegol o £0.5 miliwn a oedd wedi'i ymgorffori yn y gyllideb i ariannu timau Draenio parhaus ychwanegol a bod y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys £6-8 miliwn o ran y cynigion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith lliniaru llifogydd.

O ran y cynnydd arfaethedig o 2.65% yn Nhreth y Cyngor, nododd yr Arweinydd, ei fod ymhlith yr isaf yng Nghymru a'i fod yn falch o nodi'r lefel uchel o gefnogaeth gan breswylwyr yn ystod yr ymgynghoriad.

O ran cyllid ar gyfer ysgolion, nododd yr Arweinydd fod y gyllideb arfaethedig yn amddiffyn pwysau ysgolion ond eglurodd fod angen buddsoddiad sylweddol mewn ysgolion o ran dal i fyny. Dywedodd yr Arweinydd y byddai Llywodraeth Cymru yn debygol o wneud dyraniad o fewn ei gyllideb, yn amodol ar gyhoeddi Setliad y DU.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ganmol y broses ymgynghori drylwyr a chynhwysfawr, gan gydnabod y dull digidol arloesol a gymerwyd oherwydd y cyfyngiadau. Nododd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor wedi ymgysylltu â mwy na 1500 o drigolion trwy'r broses a bod y gefnogaeth i'r cynigion yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn hapus i gefnogi'r adroddiad ac roedd o'r farn bod y broses ymgynghori wedi dangos bod trigolion RhCT yn cefnogi'r cyfeiriad a gymerwyd gan y Cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella i raddau helaeth.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Argymhell y Strategaeth Gyllideb i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2021, yn ddarostyngedig i'r gwelliant a ganlyn:
 1. Er mwyn darparu ar gyfer penderfyniad y Cabinet i rewi taliadau caeau 3G ar gyfer 2021/22, mae'r dyraniad o £0.709 miliwn o Gyllid Pontio ar gyfer 2021/22 yn cael ei ddiwygio i £0.711 miliwn; a
 2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i newid lefel y cyfraniad o'r Gronfa Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaeth, o ganlyniad i unrhyw newid i lefelau adnoddau'r Cyngor a gyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol;

69 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2021/22–2023/24

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, adroddiad sy'n cyflwyno i'r Cabinet raglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2021/22 hyd at 2023/24, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y rhaglen dair blynedd arfaethedig yn cynnwys:

- Rhaglen graidd gwerth £42 miliwn;
- Mwy na £12 miliwn i gefnogi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- Grantiau penodol o bron i £13 miliwn; a
- Dyrannu £27 miliwn i flaenoriaethau buddsoddi.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad a nododd fod y cynigion buddsoddi yn cyd-fynd yn agos â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

Parhaodd yr Arweinydd a nododd y byddai'r Rhaglen Gyfalaf gyffredinol yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y misoedd nesaf oherwydd nifer o gynigion arfaethedig a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd fod y cynigion yn parhau â momentwm y buddsoddiad

sylweddol parhaus ledled RCT gan y Cyngor.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. 103 / 5000 Translation results Cynnig y rhaglen gyfalaf tair blynedd yn Atodiad A i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2021 sy'n cynnwys:
 - Adolygiad a rhyddhau arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad sydd ynghlwm;
 - Ailddyrranu adnoddau cyfalaf presennol fel y manylir ym mharagraffau 5.5 - 5.8 o'r adroddiad atodedig;
 - Blaenoriaethau buddsoddi arfaethedig fel sy'n cael eu manylu ym mharagraff 6.2 yr adroddiad atodedig;
 - Rhaglen gyfalaf graidd y Cyngor ;
 - Cyfanswm rhaglen gyfalaf y Cyngor, gan gynnwys cyllid ychwanegol sydd ddim yn gyllid craidd.
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol i newid lefel Adnoddau'r Cyngor sy'n ofynnol i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd Graidd fel y dangosir yn Atodiad 2 o ganlyniad i unrhyw newid i lefelau adnoddau cyfalaf y Cyngor a gyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol.

70 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

71 Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23: Gwybodaeth interim

Yn dilyn trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys Gwybodaeth Eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Derbyni adroddiad pellach gan Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor yn dilyn adolygiad llawn o asedau adeiledig y Cyngor i sicrhau'r defnydd gorau posibl ohonyn nhw ar sail ein hanghenion gwasanaeth diwygiedig ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.57 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**